# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 13/12/2022 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Rhys Llewelyn | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Lleucu Jones |
| Caren Jones | Gareth Jones | Gito Williams | Gwynfor Jones | Alaw Llewelyn Roberts |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Mared Llywelyn Williams, Rhian Sanson a Janice Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 08/11/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Gareth Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Ffurfio Is-bwyllgor Blodau ar gyfer yr Eisteddfod**
   Derbyniwyd cais gan y Cadeirydd i ffurfio Is-bwyllgor blodau ar gyfer yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf a penderfynwyd ei roi ar agenda mis Ionawr i bawb gael penderfynnu os ydynt eisiau bod yn rhan ohono, pasiwyd hefyd i glustnodi mwy o arian blodau ar y gyllideb ar ei gyfer.
   **Barn ffurfiol CTN ar y datblygiad tai fforddiadwy yn Morfa Nefyn**
   Yn dilyn cyflwyniad a gafodd CTN ar y mater yma nôl ym mhwyllgor Hydref eleni â'r holiaduron sydd wedi eu gyrru allan i drigolion Morfa Nefyn â'r diwrnod agored a gynhaliwyd yn y Ganolfan Morfa Nefyn y mis diwethaf mae'r Hwylusydd Tai Gwledig wedi gofyn am farn ffurfiol CTN ar y datblygiad er mwyn ei roi yn yr adroddiad anghenion tai lleol sydd yn cael ei baratoi ganddynt. Penderfynwyd gofyn iddynt fynychu pwyllgor Ionawr er mwyn i'r aelodau gael mwy o wybodaeth ar y mater cyn cyflwyno barn ffurfiol.

5. **Tendr 3 blynedd o 1.4.23 – 31.3.26 Llwybrau a Mynwentydd**
   Derbyniwyd un tendar ar gyfer y gytundeb 3 blynedd Cynnal a Chadw'r Llwybrau Cyhoeddus.
   Penderfyniad: pasiwyd i dderbyn y pris a cynnig y gytundeb i'r contractwr ond i roi amod arno os na fydd y gwaith i fyny i'r un safon a gwaith y contractwr blaenorol yna fe fydd rhaid ail edrych ar y gytundeb.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones
   Derbyniwyd dau dendar ar gyfer y gytundeb 3 blynedd Cynnal a Chadw'r Mynwentydd. Un tendar yn cyflwyno pris am dorri'r pump mynwent ac un tendar yn cyflwyno pris am dorri mynwent Edern yn unig.
   Penderfyniad: pasiwyd i dderbyn y tendar sydd yn cyflwyno pris i dorri'r pump mynwent.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Caren Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

6. **Cyllideb 2023-2024**
Gan fod CTN wedi penderfynnu ac wedi derbyn prisiau yn y cyfarfod heno ar y cytundebau Llwybrau Cyhoeddus â'r Mynwentydd am y dair blynedd nesaf mae'r ffigyrau yma ar y gyllideb wedi cael eu newid. Mae'r ffigwr ar gyfer blodau wedi cael ei godi hefyd gan fod yr Eisteddfod yma y flwyddyn nesaf ac felly fe fydd angen cael dipyn mwy o flodau yn y tri pentref. Mae gwybodaeth newydd wedi cael ei dderbyn bod modd ail agor y Clwb Ieuenctid yn Nefyn ar gyfer plant Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern. Mae Andrew Owen Gweithiwr Ieuenctid Ysgolion Glan y Môr a Botwnnog wedi ennill y categori Gweithiwr Ienenctid Eithriadol 2022 drwy Gymru yn ddiweddar ac oherwydd y gwaith y mae o yn ei wneud mae Cyngor Tref Pwllheli a Cyngor Cymuned Aberdaron wedi penderfynnu ail agor Clwb Ieuenctid ar yr amod mai Andrew Owen sydd yn ei redeg ac felly mae hyn yn gyfle gwych i CTN wneud yr un peth. Pasiwyd i glustnodi £5000 ar y gyllideb ar gyfer hyn ac i'r clerc gysylltu hefo Andrew Owen i drafod y camau nesaf a'i roi ar agenda mis Ionawr.
Penderfyniad: derbyniwyd y gyllideb ac awgrymu praesept o £87,000.00.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gwynfor Jones

7. **Rhodd gan Faer Puerto Madryn** - Rhys Llewelyn
Mae CTN wedi derbyn nifer o roddion gan Puerto Madryn yn ddiweddar, derbyniodd y cadeirydd y rhodd cyntaf yn ystod yr haf yn ystod Gwŷl y Glaniad sef llyfr rysetiau Cymraeg/Sbaeneg cacenni a pwdinau. Yna fe fu un o'r aelodau ym Mhatagonia a cyfarfod Maer Puerto Madryn a derbyn ganddo fel rhodd, Morfil a Llyfr sy'n dweud hanes y Ddinas yn Sbaeneg. Mae'r eitemau yma ar y funud gan yr aelodau ond efallai y byddai'n syniad da cael cabinet hefo clo arno i'w arddangos ar gyfer y dyfodol ac mae un o'r aelodau am edrych i fewn i huna.

8. **Goleuadau Nadolig Stryd Fawr Nefyn** – Cadeirydd
Mae'r goleuadau ar hyd y stryd fawr ac ar y goeden nadolig yn Nefyn yn edrych yn wych a diolch i Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn amdanynt ond mae un neu ddau o'r hen oleuadau sydd ar y polion ar y stryd fawr yn edrych braidd yn fler ac ddim yn gweithio erbyn hyn ac yn tynnu sylw oddi ar gweddill y goleuadau felly mae'r clerc am ffonio clerc yr Ymddiriedolaeth Drefol i ffendio allan pwy sydd piau'r rhain a gweld os oes modd eu uwchraddio neu peidio eu rhoi i fyny nadolig nesaf.

9. **Y Llyfrgell** – cais i gael gwared a'r toiled staff
Derbyniwyd ebost gan Gymhorthydd Llyfrgell Nefyn hefo cais i gael gwared o'r toiled staff fel bod yr ystafell yn cael ei defnyddio fel storfa ar gyfer y stwff glanhau gan ei bod yn brin iawn o le yno. Cadarnhaodd un o'r aelodau a oedd yn arfer gweithio yn y llyfrgell nad oedd neb yn defnyddio y toiled staff gan fod yna doiled hygyrch newydd yno a hwnnw mae pawb yn ei ddefnyddio a'i bod yn cefnogi'r cais.
Penderfyniad: pasiwyd i gael gwared o'r toiled a dau o'r aelodau i fynd i'r llyfrgell i weld beth sydd angen ei wneud ac adrodd nôl i bwyllgor mis Ionawr.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gruffydd Williams

10. **Rhodfa'r Môr Nefyn** – Arfon Hughes
Derbyniwyd cwyn gan un o'r aelodau fod yna byllau yn dal i fod yn Rhodfa'r Môr er bod y contractwr wedi gorffen y gwaith ac yn gofyn os oes modd cael y contractwr i'w gyfarfod yno i weld y pyllau ac i drafod y mater. Mae'r clerc am gysylltu hefo'r contractwr i drefnu cyfarfod ar y safle.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

**11. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Clwb Peldroed Penwaig Nefyn –** gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r cais i osod sied wrth y cae aml-ddefnydd
  Mae'r clerc wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r sied maent eisiau ei gosod wrth y cae aml-ddefnydd ac mae cynnig i'r aelodau eu cyfarfod ar y safle i drafod y mater ymhellach felly mae dau o'r aelodau wedi cytuno i hynny ac mae'r clerc am drefnu cyfarfod.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1118.58
- Nefyn Foods - Rent Siop Siarad - £780.00
- Dŵr Cymru – Treth dŵr mynwent Nefyn Mai i Tachwedd 2022 - £26.63
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £21.54
- D M Parry – chweched taliad mynwent Morfa a gwaith ychwanegol - £650.00
- John Gwynfor Jones – Agor bedd Doreen Cartwright - £500.00
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau - £139.50
- Chris Jones – Coed Nadolig - £1200.00
- HMRC – PAYE mis 8 - £111.43
- Cliff Hughes – Taliad 7 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1572.00
- Gareth Williams – gwaith peirianyddol ym mynwent Nefyn - £16512.00
- Gareth Williams – gwaith yn Rhandiroedd Nefyn - £858.24

**Penderfyniad**: talu pob anfoneb.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Rhys Llewelyn

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – Angladd Droy Darrach-York - £1250.00
- G D Roberts – Angladd Hugh Jones Parry - £1200.00
- Clwb Golff Nefyn – Cyfraniad tuag at coeden nadolig Morfa - £40.00
- Steven John – Coeden nadolig Edern - £275.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298